

# Cyfuno: Trechu Tlodi trwy Ddiwylliant

## Gwirfoddoli Diwylliannol

Cyfleoedd i Ehangu Mynediad a Threchu Tlodi

Mae'r canllaw hwn wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid yn y sectorau diwylliannol a gwirfoddol fel rhan o raglen www.llyw.cymru/cyfuno

Mae'n cefnogi polisi gwirfoddoli ehangach Llywodraeth Cymru, Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau (cyswllt ar gyfer gwybodaeth)

Mae ar gyfer sefydliadau diwylliannol o bob lliw a llun.

Y nod yw rhoi enghreifftiau o arfer gorau a chyfeirio at adnoddau a chymorth ychwanegol.

Mae sefydliadau diwylliannol yn cael eu hannog i fabwysiadu egwyddorion y canllaw ac annog y cyrff y maen nhw'n eu hariannu a'u harwain i wneud yr un peth.

Mae pwyslais ar annog pobl sy'n byw mewn tlodi i wirfoddoli a hynny er mwyn gwella eu hyder, eu sgiliau a'u siawns o gael swydd.

## Hanfodion arfer da

» Cynnig cyfleoedd gwirfoddoli a lleoliad gwaith deniadol ac amrywiol sy'n apelio at ddiddordebau o bob math.

» Sicrhau bod y sefydliad a'r gwirfoddolwr yn cael budd ohono.

» Rheoli gwirfoddolwyr mewn ffordd gyfrifol ac effeithiol.

» Osgoi defnyddio gwirfoddolwyr yn lle gweithwyr.

» Cydnabod bod amser staff ac adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio wrth recriwtio, rheoli a datblygu gwirfoddolwyr.

» Cydnabod bod gofyn i bob rhan o sefydliad, o lefel y Bwrdd a'r Cyfarwyddwr i lawr, ymrwymo i recriwtio, rheoli a datblygu gwirfoddolwyr.

» Ymrwymo i hyfforddi staff yn barhaus ar sut i reoli gwirfoddolwyr yn gyffredinol a gweithio â mathau penodol o wirfoddolwyr.

» Hyrwyddo cyfleoedd mor eang â phosibl.

» Paratoi cytundeb gwirfoddoli (dylech osgoi'r term 'contract') sy'n nodi'r hyn y byddwch yn ei ddarparu a'r hyn a ddisgwylir gan wirfoddolwr.

» Cynllunio oriau gwirfoddolwyr ar sail anghenion y gwirfoddolwr a'r sefydliad.

» Monitro cyfranogiad i gasglu tystiolaeth am niferoedd ac amrywiaeth.

» Rhoi cyngor ar ddatblygu gyrfa a pharatoi ar gyfer y byd gwaith. Dylai sefydliadau fod yn glir o'r cychwyn nad oes unrhyw sicrwydd o gael swydd ar ôl bod ar leoliad gwaith di-dâl neu wirfoddoli.

» Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu trin yn gyfartal â gweithwyr ac felly dylai sefydliadau ddarparu geirdaon, yr hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer y rôl ac unrhyw ddillad ac offer angenrheidiol.

## Gwirfoddoli er mwyn mynd i'r afael ag anfantais

» Mae llawer o sefydliadau'n cydnabod gwerth cymdeithasol gwirfoddoli ond nid ydynt bob amser yn gwybod sut i ddenu gwirfoddolwyr mwy amrywiol, hyd yn oed pan fo safleoedd yn agos i ardaloedd difreintiedig. Bydd gweithio'n agos ag asiantaethau eraill yn helpu i chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwirfoddoli.

» Dylai sefydliadau weithio'n agos gyda'u clwstwr Cymunedau yn Gyntaf (**cyswllt ar gyfer gwybodaeth**) lleol os yn berthnasol, cynghorau gwirfoddol sirol, canolfannau gwaith, elusennau ac asiantaethau eraill. Mae'n bosib y bydd nifer ohonynt yn chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli priodol ar gyfer y bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw.

» Mae gwirfoddoli'n rhoi manteision gwahanol i bobl ar wahanol gyfnodau o'u bywyd:

  » Mae'n gallu codi diddordeb pobl ifanc yn y byd o'u cwmpas a darparu profiadau ystyrlon i'r sawl sy'n ei chael hi'n anodd mewn lleoliadau addysgol mwy ffurfiol;

  » Mae'n gallu helpu i ddatblygu CV, sgiliau a rhagolygon swydd oedolion;

  » Mae'n gallu helpu pobl hŷn i deimlo'n llai ynysig.

» Gall gwirfoddoli fod yn rhan o lwybr datblygu, gan ddechrau gyda gweithgarwch anffurfiol ac arwain at leoliadau gwaith a gwirfoddoli ffurfiol, prentisiaethau a chyflogaeth. Gall cyfleoedd mwy ffurfiol fod yn addas ar gyfer rhai.

» Dylai sefydliadau ystyried eu rôl wrth symud pobl ar hyd y llwybr datblygu hwn a theilwra digwyddiadau a gweithgareddau yn unol â hynny. Dylai cyrff diwylliannol gynnig sesiynau rhagflas anffurfiol a hwyliog, gan weithio gyda phartneriaid i dargedu cynulleidfaoedd neu grwpiau penodol. Gallai hyn arwain at ragor o ddiwrnodau rhagflas ffurfiol. Nid oes gan rai pobl ddigon o hyder i fynd i sesiynau, ond mae'n bosib y byddan nhw'n fwy tebygol o fynd fel rhan o grŵp neu gyda ffrindiau.



© Amgueddfa Genedlaethol Cymru



© Amgueddfa Stori Caerdydd



© Llywodraeth Cymru

- Mae angen ei gwneud hi'n haws i bobl gofrestru ar gynlluniau gwirfoddoli mwy ffurfiol ac mae angen rhoi ystyriaeth ofalus wrth ddylunio gwaith papur.
- Mae diffyg hyder yn her i nifer o bobl sy'n ystyried gwirfoddoli ac mae'r syniad o gamu i weithle newydd yn gallu codi ofn arnynt. Mae sawl ffordd i helpu, er enghraifft gofyn i wirfoddolwyr profiadol fentora neu fod yn 'gyfaill' i wirfoddolwr newydd a chynnal seremonïau gwobrwyo a chynlluniau cydnabod. Gall gwirfoddolwyr profiadol hefyd dywys ymwelwyr a bod yn llysgenhadon pwerus ac effeithiol dros eu sefydliad.
- Mae llawer o wirfoddolwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael cydnabyddiaeth fwy ffurfiol. Mae achredu yn ffordd werthfawr i bobl gael canlyniad clir a phendant o'u rôl a bydd yn cryfhau eu CV os ydyn nhw'n chwilio am waith.
- Gall sefydliadau, mewn rhai achosion, gynnig lleoliadau gwaith di-dâl fel dewis amgen i wirfoddoli neu fel y cam nesaf. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn fwy ffurfiol, yn rhan o gynllun neu gwrs astudio, ac yn para llai na 6 mis.
- Dylai sefydliadau a gwirfoddolwyr fod yn ymwybodol o'r canllawiau a'r rheolau ynghylch gwirfoddoli a hawlio budd-daliadau. Gall hawlwyr wirfoddoli am gynifer o oriau ag y mynnant cyn belled ag y gallan nhw brofi eu bod wrthi'n chwilio am waith ac ar gael i weithio. Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd gwirfoddoli'n effeithio ar fudd-daliadau'r wladwriaeth, ond mae'n rhaid i wirfoddolwyr roi gwybod i DWP. Mae canllaw ar wirfoddoli a hawlio budd-daliadau (cyswllt ar gyfer gwybodaeth) wedi'i greu.
- Mae costau teithio yn gallu atal rhai pobl rhag gwirfoddoli felly gallai sefydliadau ystyried talu tuag at gostau teithio a rhoi gostyngiadau mewn siopau a chaffis. Gall Cynllun bancio amser (cyswllt ar gyfer gwybodaeth – Saesneg yn unig) hefyd fod yn ffordd effeithiol o gymell pobl i wirfoddoli.

## Canllawiau pellach

- Dylai sefydliadau fod yn greadigol am y math o rolau y maen nhw'n eu cynnig. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi creu canllaw (cyswllt ar gyfer gwybodaeth - Saesneg yn unig) ar wirfoddoli â sefydliadau treftadaeth sy'n awgrymu ystod eang o rolau gwirfoddoli. Gall cynlluniau gwirfoddoli rhithwir neu ddigidol gael eu hystyried hefyd.
- Mae nifer o sefydliadau wedi creu canllawiau i sefydliadau ar recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) (cyswllt ar gyfer gwybodaeth), y Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (cyswllt ar gyfer gwybodaeth – Saesneg yn unig)(Lloegr) a Volunteer Now (cyswllt ar gyfer gwybodaeth – Saesneg yn unig)(Gogledd Iwerddon).
- Mae canllawiau mwy penodol ar wirfoddoli yn y sector diwylliannol hefyd ar gael o Gymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru,(cyswllt ar gyfer gwybodaeth – Saesneg yn unig) y Celfyddydau Gwirfoddol (cyswllt ar gyfer gwybodaeth – Saesneg yn unig), Cymdeithas yr Amgueddfeydd,(cyswllt ar gyfer gwybodaeth – Saesneg yn unig) y Gymdeithas Archifau a Chofnodion (cyswllt ar gyfer gwybodaeth – Saesneg yn unig) ac eraill.

- Partneriaeth yw GwirVol rhwng y trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Ei nod yw codi nifer ac ansawdd cyfleoedd gwirfoddoli **pobl ifanc**. Mae ei chynllun grantiau (cyswllt ar gyfer gwybodaeth) yn cefnogi cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc yng Nghymru.
- Mae gan bob cyngor gwirfoddol sirol yng Nghymru Gynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid (cyswllt ar gyfer gwybodaeth) rhan amser. Mae'r Cynghorwyr yn ceisio helpu sefydliadau i ddatblygu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli, gwella eu hansawdd a threfnu bod pobl ifanc yn rhoi cynnig ar gyfleoedd.
- Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (cyswllt ar gyfer gwybodaeth – Saesneg yn unig) (IiV) yw **safon ansawdd** y DU ar gyfer arfer gorau ym maes rheoli gwirfoddolwyr a gall fod yn ffordd effeithiol i gyrff diwylliannol ymsefydlu arfer gorau drwy'r sefydliad a dangos ansawdd i bartneriaid a chyfranogwyr posibl.  Mae'n feincnod y dylai sefydliadau anelu at ei gyrraedd. Bydd angen i sefydliad dalu tuag at gyrraedd y safon ac efallai y bydd modd gwneud cais am grantiau. Yng Nghymru, mae'n bosib cynnal 'archwiliad iechyd'(cyswllt ar gyfer gwybodaeth – Saesneg yn unig) cychwynnol i nodi'r meysydd i'w datblygu, heb orfod ymrwymo i'r broses asesu gyfan. Codir tâl am hyn.
- Mae CGGC (cyswllt ar gyfer gwybodaeth) yn cyfeirio at **hyfforddiant a chymwysterau** ar gyfer rheolwyr gwirfoddolwyr ac mae digwyddiadau'n cael eu cynnal ledled Cymru. Mae sefydliadau hefyd yn gallu cael hyfforddiant allanol am gost isel gan gyrff fel elusennau sy'n gweithio gyda chynulleidfaoedd neu grwpiau penodol.
- Yng Nghymru, gall sawl corff gynnig **achrediad**, gan gynnwys Gwobr y Celfyddydau (cyswllt ar gyfer gwybodaeth – Saesneg yn unig), Agored Cymru (cyswllt ar gyfer gwybodaeth) ac ASDAN (cyswllt ar gyfer gwybodaeth – Saesneg yn unig).
  Mae Gwobr Gwirfoddolwyr y Mileniwm (cyswllt ar gyfer gwybodaeth), sydd wedi'i chefnogi gan GwirVol, yn wobr gydnabyddedig sy'n dangos faint o oriau y mae pobl ifanc wedi'u gwirfoddoli, a ble.
- Dylai sefydliadau hyrwyddo **cysylltiadau da rhwng gweithwyr a gwirfoddolwyr**. Mae siarter (cyswllt ar gyfer gwybodaeth) wedi'i greu sy'n nodi sut y dylai gwirfoddolwyr a gweithwyr gefnogi ei gilydd. Mae llawer o'r farn y dylai gwirfoddolwyr gael eu defnyddio i 'ychwanegu gwerth' yn unig at sefydliad neu wasanaeth h.y. nid i ddisodli staff na'u swyddogaethau craidd. Mae hyn o bwys mawr i lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, ymhlith sefydliadau eraill.
- Dylai sefydliadau diwylliannol weithio gyda phartneriaid i **gyfeirio at gyfleoedd a'u hyrwyddo** mor eang â phosibl. Dylen nhw weithio'n agos gyda phartneriaid yn eu hardal, gan gynnwys cynghorau gwirfoddoli sirol (cyswllt ar gyfer gwybodaeth), sefydliadau Addysg Bellach/Addysg Uwch ac eraill, a dylent gofrestru cyfleoedd ar wefan Gwirfoddoli Cymru (cyswllt ar gyfer gwybodaeth).
- Mae'n bosib y bydd gan rai unigolion neu grwpiau targed **anghenion cymorth uchel**; dylai sefydliadau nodi'r rhain o'r cychwyn a cheisio arweiniad arbenigol ac arfer gorau.

ISBN: 978-1-4734-6805-4
OGL © Hawlfraint y Goron 2016  28996